



## Darlith Flynyddol Cynllunwyr Iaith Cymru

Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Wrecsam a'r Fro, 4 Awst 2011

# EDRYCH YMLAEN AC EDRYCH YN ÔL

**Cipolwg ar ddatblygiad cynllunio ieithyddol cyfannol yng Nghymru**

**Meirion Prys Jones, Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

Rwy'n ddiolchgar iawn i *IAITH: y ganolfan cynllunio iaith* am roi'r cyfle imi draddodi ei ddarlith flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Mae *IAITH* bellach wedi hen ennill lle canolog mewn unrhyw drafodaeth ar egwyddorion cynllunio ieithyddol mewn perthynas â'r Gymraeg, ac mae'n gwbl briodol felly mai datblygiad cynllunio ieithyddol cyfannol yng Nghymru yw fy nhestun i heddiw. Ac fel cyn ddisgybl yn Ysgol Morgan Llwyd yn Wrecsam, mae'n bleser cael cyflwyno hyn o eiriau yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam

Fel y byddech yn disgwyl, o ystyried yr hyn rwyf wedi bod yn ymhél ag e dros y deunaw mlynedd diwethaf, o safbwynt Bwrdd yr Iaith Gymraeg y byddaf yn edrych yn ôl ac yn edrych ymlaen. Serch hynny, byddaf yn ceisio bod mor wrthrychol â phosibl!

Wedi'r cyfan, mae gennym ddigon o le i fod yn obeithiol ynghylch dyfodol y Gymraeg. Mae'r niferoedd sy'n ei siarad i'w gweld ar gynnydd. Mae ei statws yn y wlad yn uwch nag a fu erioed ers y Canol Oesoedd. Mae cydsyniad gwleidyddol cadarn a sylweddol o'i phlaid. Byddai gwleidyddion sawl iaith leiafrifol arall ar draws y byd yn falch iawn o fod yn yr un sefyllfa â sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru. A mentraf ddweud mai dyna pam y mae cryn edmygedd y tu hwnt i Gymru i'r modelau cynllunio ieithyddol yr ydym wedi ei ddatblygu yma.

Rhaid inni beidio a cholli ein pennau chwaith: mae lle i bryderu yn ogystal. Y tair her fawr sy'n ein wynebu yw:

- Yn gyntaf, peryglon dirywiad yr iaith yn y teulu ac mewn cymunedau.

- Yn ail, sefyllfa anfoddhaol – a dweud y lleiaf – o ran y defnydd a wneir o'r iaith gan ei siaradwyr: er enghraifft, gan blant a phobl ifanc; gan unigolion yn eu hymwneud â sefydliadau ymhob sector; gan weithleoedd, o ran rhoi cyfleoedd teg i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith wrth eu gwaith.
- Ac yn drydydd, diffyg ymrwymiad ymarferol digonol i brif ffrydio'r Gymraeg o du'r Llywodraeth.

Fe geisiaf ddatblygu'r pwyntiau hyn yn y man, ond yn gyntaf gadewch imi gychwyn ar fwrw golwg yn ôl.

Af i ddim i droi'n ormodol yn y gorffennol pell. Wrth gwrs, mae gan pob datblygiad, o'r Deddfau Uno a chyfieithu'r Beibl hyd at sefydlu'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac S4C, ei briod le na feiddir ei anwybyddu. Gellid dadlau'n deg mai'r Ddeddf i ganiatáu cyfieithiad awdurdodedig o'r Beibl a Llyfr Gweddi'r Cyffredin i'r Gymraeg oedd y weithred gyntaf mewn cynllunio ieithyddol gan lywodraeth o blaid y Gymraeg. Anodd gorbwysleisio ei harwyddocâd yn hanes yr iaith

Ond rwyf am gychwyn heddiw yn y gorffennol agos ychydig dros ugain mlynedd yn ôl, gyda sefydlu Bwrdd ymgynghorol yr Iaith Gymraeg yn 1988.

Cofiwch mai Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd oedd y diweddar Peter Walker, Sais na wyddai nemor ddim am yr iaith Gymraeg, ond, chwarae teg iddo, roedd yn fodlon cyfaddef hynny. Ac i'w gynorthwyo yn y diffyg hwnnw, fe benododd ar y dechrau wyth unigolyn â chryn arbenigedd ar wahanol agweddau ar y Gymraeg, a hynny dan gadeiryddiaeth John Elfed Jones.

Doedd gan y Bwrdd ymgynghorol braidd ddim adnoddau na grym statudol chwaith. Llwyddiant mwyaf y Bwrdd ymgynghorol oedd perswadio Llywodraeth y dydd i ddeddfu o blaid y Gymraeg, a sefydlu, drwy Ddeddf Iaith 1993, Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar sail statudol, ac iddo'r swyddogaeth o 'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg'. Nid y Mesur Iaith a ddrafftwyd gan y Bwrdd ymgynghorol a ddewisodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig fel sail ddeallusol i'w deddfwriaeth hi. Roedd Mesur y Bwrdd yn canolbwyntio ar **hawliau** siaradwyr y Gymraeg i'w defnyddio; gosod **dyletswyddau** ar gyrff yn y sector cyhoeddus oedd sail yr hyn a ddaeth yn Ddeddf Iaith 1993.

Gwrthod cyngor yr arbenigwyr ieithyddol a wnaed, a daeth Bwrdd statudol yr Iaith Gymraeg i fodolaeth ar 21 Rhagfyr 1993, a chanddo dri pheth i'w cyflawni yn y bôn:

- Diffinio a gweithredu ei swyddogaeth statudol graidd i 'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg'.
- Ysgogi a goruchwyllo'r broses o baratoi a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg gan gyrff cyhoeddus, er mwyn gweithredu egwyddor sylfaenol y Ddeddf yn y cyswllt hwn,

sef 'wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal'.

- Cadw gorolwg strategol dros addysg Gymraeg.

Deilliodd y ddau orchwyl cyntaf yn syth o'r Ddeddf. O ran y swyddogaeth statudol graidd i 'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg', ni ddiffiniwyd hon ymhellach yn y ddeddfwriaeth ei hunan. O'r herwydd, cafodd y Bwrdd osod ei flaenoriaethu gweithredu ei hunan, er bod hyn wedi ei gyfyngu rhywfaint wrth reswm gan yr adnoddau a oedd ar gael o'r Llywodraeth, a chan wahanol gyfarwyddiadau a roddwyd inni o'r un tu.

O ran Cynlluniau Iaith Gymraeg, ar y llaw arall, yr oedd y ddeddf yn llawer mwy gorchmynnol a phendant, nad oedd yn syndod o gofio mai cysyniad a ddeilliodd yn llawn o ben a phastwn y Llywodraeth ei hunan oedd y cyfrwng lled gymhleth hwn.

Nid o'r Ddeddf y deilliodd y swyddogaeth i gadw gorolwg strategol dros addysg, ond drwy orchymyn gweinidogol yn sgil diddymu'r corff ymgynghorol y *Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg*. Ni ddiffiniwyd y swyddogaeth hon yn helaethach: y tro hwn, er gwaeth! Buom am flynyddoedd yn pwysu ar wahanol lywodraethau i ddweud yn union beth oedd disgwyl i'r Bwrdd ei wneud yn y cyswllt hwn dan sêl bendith y Llywodraeth, ond ni chafwyd erioed ateb digonol na boddhaol.

Beth, felly, yw fy asesiad o gryfderau a gwendidau gwaith Bwrdd statudol yr Iaith Gymraeg, sefydliad y bûm i ynghlwm wrtho fwy neu lai o'r cychwyn cyntaf? Fe geisïaf gynnig ateb o safbwynt y ddisgyblaeth y mae'r Bwrdd wedi ceisio ei meithrin a'i datblygu fel sail ddeallusol i'w waith, sef cynllunio ieithyddol cyfannol.

Yn gyntaf, fe geisiodd y Bwrdd roi cyfeiriad strategol clir a diamwys i'w waith. I fynd ati i greu'r ddogfen a gyhoeddwyd bron i flwyddyn yn ddiweddarach, paratowyd yn gyntaf, yn 1995, strategaeth ddrafft, ac aethpwyd ati i ymgynghori arni'n helaeth drwy ofyn barn ein holl bartneriaid arni. Ymddangosodd *Strategaeth ar Gyfer yr Iaith Gymraeg* yn 1996. Roedd nod ac amcanion y ddogfen wedi'i cymhwysu ar sail yr ymgynghori. Y nod oedd 'galluogi'r Gymraeg i fod yn hunangynhaliol a diogel fel cyfrwng cyfathrebu yng Nghymru'. Roedd y pedwar amcan wedyn yn adlewyrchu'r pedair prif her oedd yn rhaid eu hwynebu ar y pryd: dau amcan digon amlwg:

- cynyddu niferoedd y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg; a
- darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Roedd y ddau amcan arall yn fwy dychmygus ac uchelgeisiol:

- newid arferion defnyddio'r iaith, ac annog pobl i gymryd mantais o'r cyfleoedd a ddarperir; ac

- atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

A dyma ddangos i chi o ble tarddodd y pwyslais y mae'r Bwrdd wedi ei roi yn wastad ar gynyddu defnyddio'r Gymraeg drwy ei marchnata, a hefyd ar ddatblygu cymunedol: dau o'n prif nodweddion o ran blaenoriaethu a gweithredu. Byddwn i'n barod i ddadlau mai'r parodwydd hwn i gynllunio ein gwaith yn gyfannol a arweiniodd at ein llwyddiannau dros y blynyddoedd.

Ond proses o geisio gwella'n raddol wrth fynd yn ein blaenau yr oedd hi, a cheisio deall yn well yr hyn y gellid ei gyflawni gyda'r adnoddau cyfyng a oedd ar gael.

Daeth y cam strategol nesaf yn sgil Datganoli – yn 1999 – pan ofynnwyd i'r Bwrdd osod allan ei genhadaeth a'i weledigaeth ar gyfer y pum mlynedd i ddod. Dyma a ysgogodd cyhoeddi ein dogfen *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005*. Mae hon yn ddogfen ryfedd ar yr olwg gyntaf, gan bod dau bwrpas digon gwahanol iddi, Yn gyntaf, roedd yn gais am fwy o adnoddau, a oedd yn gosod allan yn glir yr hyn a ellid ei gyflawni'n ychwanegol gan y Bwrdd a'i bartneriaid, ond, yn ail, roedd hefyd yn gosod allan achos manwl a chytbwys dros gynllunio ieithyddol effeithiol. Yn ogystal, roedd dehongliad clir o'r hyn a olygid gan gynllunio ieithyddol effeithiol, a'r hyn y dylid ei gyflawni drwyddo. Roedd yn cynnig, felly, sail theoretig i weithredu effeithiol ac ymarferol.

Hoffwn droi yn awr i edrych ar Gynlluniau Iaith Gymraeg, a orfodwyd – fe gofiwch – ar y Bwrdd statudol drwy'r Ddeddf, a hynny heb unrhyw gysail ieithyddol inni allu dibynnu arno. Ond gorfodi neu beidio, roedd bryd y Bwrdd ar iddyn nhw lwyddo, ac aed ati'n syth i gyflawni'r gwaith manwl o osod y prosesau angenrheidiol yn eu lle. Mi wn y gellid beirniadu'r Bwrdd am i'r drefn sefydlu Cynlluniau Iaith gymryd cyhyd i'w gosod yn ei lle. Wedi'r cyfan, roeddem wedi cyrraedd 1996 cyn i'r Cynllun Iaith cyntaf, eiddo Cyngor Sir Gwynedd, gael ei gymeradwyo. Gellid dadlau hefyd fod y drefn ar y cychwyn beth bynnag. Un rheswm am hynny oedd fod y Bwrdd yn benderfynol o gael trefn gref a chadarn yn ei lle, trefn na ellid yn rhwydd ei herio, o achos pe bai hynny wedi digwydd, gallasai'r cyfan fod wedi mynd ar chwâl o'r cychwyn. Roedd y Bwrdd hefyd yn ymwybodol pe bai herio wedi digwydd ar y cychwyn, a hwnnw'n llwyddiannus, buan iawn y buasai cyfyngiadau pwerau statudol y Bwrdd wedi dod i'r amlwg. Daeth yn amlwg mai troedio llwybr cul rhwng perswâd a gorfodaeth oedd yr unig opsiwn i'r Bwrdd lwyddo yn ei waith.

A diolch byth, fe fu'r drefn yn llwyddiannus, ac fe'i datblygwyd ac fe'i mireiniwyd i ateb y gofynion yn gyflym ac yn effeithiol, fel sy'n digwydd bellach. Ac rydym yn awr mewn sefyllfa lle mae dros 500 o Gynlluniau Iaith Gymraeg wedi'u cymeradwyo yn y sector cyhoeddus, sy'n golygu fod Cynllun Iaith gan bron pob corff cyhoeddus o bwys sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Yn fwy na hynny, mae'r mwyafrif helaeth o'r cyrff

hyn wedi dangos perchnogaeth o'u Cynlluniau, ac mae hynny wedi digwydd drwy rym perswâd yn anad dim arall.

Ond wrth reswm, mae achosion o dangyflawni wedi digwydd, ac yn y blynyddoedd diweddar, ni bu'r Bwrdd ofn defnyddio ei bwerau ymholi pan oedd raid. Mewn achosion o gwynion, y gwir amdani yw fod modd datrys y rhan fwyaf o'r rhain heb orfod cynnal ymchwiliad llawn: arwydd arall o'r berthynas adeiladol y mae'r Bwrdd wedi'i meithrin gyda rhychwant eang o gyrrff cyhoeddus. Ond pan oedd achos amlwg a chlir o ddiffyg cydymffurfio â Chynllun Iaith, fe gynhaliwyd ymchwiliad, ac, er nad yw pwerau gorfodol y Bwrdd yn agos at fod yn ddigonol mewn achosion o'r fath, mae'n braf nodi fod argymhellion y Bwrdd wedi'u derbyn yn llawn yn y mwyafrif helaeth o'r ymchwiliadau a gynhaliwyd.

Nid wyf yn credu mai fy lle i yw amddiffyn y drefn Cynlluniau Iaith; fel y dywedais yn barod, trefn wedi'i gorfodi ar y Bwrdd ydyw hi, trefn sydd o'i hanfod yn canolbwyntio ar ddyletswyddau cyrff, yn hytrach nag ar anghenion a gofynion defnyddwyr eu gwasanaethau. Ond, fel y gwelwch, yr hyn rwyf yn barod i amddiffyn yn llawn y ffordd yr aeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ati i wneud i'r drefn weithio'n effeithiol. Mae hyn yn fwy arwyddocaol fyth o gofio fod trefn debyg wedi'i threialu mewn rhai gwledydd eraill yn Ewrop, ond nid oes yno'r un arwyddion o lwyddiant ag yng Nghymru.

Cymrwch Iwerddon er enghraifft. Yno y Llywodraeth Ganol sy'n gweithredu'r drefn, ac mae oedi mawr wedi digwydd mewn nifer o achosion wrth geisio cymeradwyo Cynlluniau Iaith, i'r graddau fod Seán Ó Cuirreáin, y Comisiynydd Ieithoedd yn Iwerddon, newydd gyhoeddi fod 'y system cynlluniau yn rhy gymhleth, ac y gall fod yn anodd i'r cyhoedd yn gyffredinol adnabod pa wasanaethau drwy gyfrwng yr Wyddeleg y mae ganddyn nhw hawl i'w derbyn yn unol â'r cynlluniau, ac i wybod pryd y caiff gwasanaethau o'r fath eu darparu. Am y rheswm hwn, mae angen dull mwy strategol, a dylai safonau cyffredin o leiaf fod yn berthnasol i wahanol Gynlluniau, yn arbennig Gynlluniau yn yr un sector'.

Mae'r cyfeiriad hwn gan Seán Ó Cuirreáin at safonau yn dod â ni – bron â bod – at y Mesur Iaith, ond cyn troi at hwnnw, hoffwn ddweud gair byr am swyddogaeth benodol y Bwrdd mewn addysg Gymraeg, sef ein gorchwyl i gadw gorolwg strategol dros yr maes yn ei gyfanrwydd.

Doedd hi ddim yn syndod inni gael y swyddogaeth hon, gan mor allweddol fu cyfraniad addysg Gymraeg i ffyniant yr iaith dros y degawdau diwethaf. Yn wir, llwyddwyd eto i gyflawni tipyn yn y maes hwn, yn arbennig drwy feithrin partneriaethau cynhyrchiol gyda'r darparwyr, a chyda'r cyrff lloïo. Datblygwyd hefyd gyfrwng hollol newydd ar y cyd â'r awdurdodau addysg lleol, sef Cynlluniau Addysg Gymraeg, a'n galluogodd am y tro cyntaf i fesur hyd a lled y ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog dros Gymru gyfan. Fel y

tybiech, cynigiodd hyn gyfrwng arall, yn ychwanegol at Gynlluniau Iaith sefydliadau addysgol, ar gyfer cynllunio ieithyddol cyfannol yn y maes.

Un datblygiad arall y dylwn gyfeirio ato yw cyhoeddi'r ddogfen *Iaith Pawb* gan Lywodraeth y dydd yn 2003. Mae hon, ar y naill law, yn ddogfen arwyddocaol dros ben: dyma'r tro cyntaf wedi Datganoli i Lywodraeth Cymru wneud datganiad hir o'i dyheadau ynghylch dyfodol yr iaith Gymraeg a chynnig yr un pryd gynllun i wireddu'r dyheadau hynny, er bod dogfen fer wedi ymddangos ym mis Gorffennaf 2002 – *Dyfodol Dwyieithog: A Bilingual Future* – a oedd yn gosod cyfeiriad polisi, ac yn datgan am y tro cyntaf ddeisyfiad y Llywodraeth i weld Cymru 'gwbl ddwyieithog'. Roedd y Llywodraeth, meddai yn *Iaith Pawb*, 'am i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog, sef gwlad lle gall pobl ddewis byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg a lle mae presenoldeb y ddwy iaith yn ffynhonnell amlwg a hyglyw o falchder a chryfder i bob un ohonom'. Datganiad canmoladwy gan Lywodraeth o blaid y Gymraeg, os bu un erioed!

Ar y llaw arall, roedd *Iaith Pawb*, a alwai ei hunan yn 'Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog', yn ddogfen annigonol. Roedd ynddi dargedau uchelgeisiol – targedau rhy uchelgeisiol, byddai rhai yn dadlau, gan na chân nhw eu cyrraedd; ac roedd elfennau strategol ac elfennau gweithredol wedi eu plethu drwyddi'n flith draphlith braidd.

Ond gwell imi beidio â'i beirniadu'n rhy hallt, gan mai cyhoeddi'r ddogfen hon a arweiniodd – am yr unig dro – at gynnydd sylweddol gan y Llywodraeth Ganol, o £16miliwn dros dair blynedd, yng nghyllideb y Bwrdd Iaith. Serch hynny, er gwaethaf y datganiad o ymrwymiad gan y Llywodraeth i ffyniant yr iaith Gymraeg, ac er gwaethaf y cynnydd mewn adnoddau i'r Bwrdd a'i bartneriaid, rhaid dweud unwaith eto nad oedd yr ymrwymiad strategol yn ddigonol, a'r prawf o hynny yw na lwyddodd y Llywodraeth ond yn rhannol i weithredu'r cynllun.

Dyna ochr deddfwriaethol a strategol o waith y Bwrdd. Ond un o brif gryfderau'r Bwrdd, mi dybiaf, dros y blynyddoedd fu ei greadigrwydd mewn ystod o feysydd sy'n ymwneud ag adfywio iaith. Cydiwyd yn dynn yn y syniad o gynllunio ieithyddol cyfannol. Rhoddwyd llawer o sylw i ystyried sut mae pobl yn agweddu tuag at y Gymraeg a pha gyfleoedd sydd ganddynt i ddefnyddio'r iaith. O hyn oll deilliodd nifer o brosiectau sylweddol ac arloesol, megis prosiect TWF sy'n cynnig cymorth i rieni wrth drosglwyddo iaith i'w plant, i brosiect PCAI gydag ysgolion uwchradd, i brosiectau mwy diweddar fel Mae dy Gymraeg di'n Grêt, Ardaloedd hyrwyddo'r Gymraeg a'r teclyn sy'n cael ei ddatblygu i gynorthwyo cymunedau unigol i fesur bywiogrwydd y Gymraeg o fewn eu cymuned. Ychydig iawn o brosiectau fel hyn sydd i'w cael yn unman arall yn y byd.

Hefyd gwelwyd egni creadigol sylweddol yn dod o'r cymunedau Cymraeg eu hiaith. Sefydlwyd nifer helaeth o Fentrau Iaith ledled Cymru a chafwyd llawer mwy o gynllunio bwriadus i gefnogi'r iaith yn ein cymunedau.

Hefyd dros y saith mlynedd diwethaf drwy waith arloesol Hywel Jones, ystadegydd y Bwrdd cafwyd gwybodaeth lawn ac hanfodol, os nad ysgytwol am wir sefyllfa'r iaith Gymraeg ledled Cymru.

Yr ehangder a'r creadigrwydd hyn hefyd a yrrodd i ni dros y blynyddoedd diwethaf hyn i fynd ati yn fwy systematig i gynnwys y sector preifat yn y broses hon o gynllunio. Dros y tair blynedd diwethaf cytunwyd dros 450 o bolisiâu iaith gyda'r sector honno. Cafwyd ymateb positif iawn gan y sector ac mae'n lwyfan i adeiladu arno'n y dyfodol.

Un o'r elfennau o'n gwaith rwy'n teimlo'n falch iawn ohono yw'r pwyslais a roddwyd ar weithio mewn partneriaeth. Er i staff y Bwrdd presennol gynyddu o 8 i 80 ers 1993, doedd hi ddim yn bosibl cyflawni nemor ddim heb ein partneriaid. Diw creu partneriaeth dda rhwng corff sy'n ariannu a chyrff sy'n derbyn yr arian hwnnw byth yn rhwydd. O edrych ar wledydd eraill fe welwch chi y ffraeo rhyfedda. Ond nid felly y bu hi yma. Mae fy niolch yn fawr i'r mentrau iaith, Hywel o MYM, Efa o'r Urdd, Tegwen o Ferched y Wawr . Elwyn o'r Cyngor Llyfrau, Tim Hartley o S4C, Sian o BBC ac wrth gwrs yr unigryw Elfed Roberts o'r eisteddfod Genedlaethol am y cydweithio ardderchog a fu rhyngom ni oll.

Buom hefyd yn llwyddiannus yn sefydlu a rhedeg dwy bartneriaeth rhyngwladol, partneriaeth BIC, y Cyngor Prydain ac Iwerddon gan ddod a'r 8 iaith frodorol sy'n bodoli yn ynysoedd Prydain ynghyd i gydweithio. Hefyd sefydlwyd rhwydwaith NPLD sy'n rhwydwaith sy'n cynnwys fwy neu lai holl ieithoedd lleiafrifol Ewrop. Mae'r trafodaethau sydd wedi digwydd yn y cyfarfodydd hyn wedi gwella dealltwriaeth pob un ohonom o beth yw cynllunio ieithyddol,

Dyma ddod i ben ag edrych yn ôl. A thrwy wneud hynny, gobeithio fy mod wedi llwyddo i ddangos ichi sut y seiliwyd gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar egwyddorion cynllunio ieithyddol cyfannol; gobeithio imi hefyd allu eich darbwylo o'r cyfraniad allweddol a wnaed gan y Bwrdd i ddatblygiad egwyddorion y ddisgyblaeth honno yng Nghymru.

Ymlaen â ni, felly, at y Mesur Iaith newydd, neu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a rhoi iddo ei deitl llawn. Pan gyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ei bwriad i ddeddfu o blaid y Gymraeg a chreu Comisiynydd Iaith, bu cryn frwdfrydedd o blaid y cyhoeddiad. Ond pan gyflwynwyd y Mesur ar ei ffurf ddrafft dros flwyddyn yn ôl, llai llafar, a dweud y lleiaf, oedd y croeso a dderbyniodd ei gynnwys. Ac nid yn unig o du'r Bwrdd, ond o sawl tu arall.

Beth oedd yn bod, felly? Wel, roedd yn ymddangos fod sawl man gwan: o ddiffyg cyhoeddi statws swyddogol y Gymraeg ac amwyster y cysyniad newydd o safonau, i ddrafftio'r Mesur cychwynol ei hunan.

O ran y Bwrdd, roedd y Mesur drafft wedi'i baratoi heb unrhyw fath o ymgynghoriad synhwyrol â ni: gweision sifil a Gweinidogion oedd wedi creu'r cyfan o'u pen a'u pastwn eu hunain. Roedd *Iaith Pawb* yn datgan mai'r Bwrdd yw'r 'corff cynllunio ieithyddol cenedlaethol dros Gymru', ond aeth hyn yn angof llwyr pan aed ati i lunio'r Mesur newydd.

Wrth gwrs, mae'r cymal ar statws wedi ei wella yn y Mesur ei hunan. Mae'n dweud bellach: 'Mae statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru'. Mae'n rhaid bod hynny'n wir felly!

Ond yn sgil y Mesur a'r hyn fydd yn deillio ohono, erys nifer o heriau sylweddol: dwy yn bennaf. Yn gyntaf, y cysyniad o safonau a fydd, pan ddôn nhw i rym, yn gwneud i ffwrdd â Chynlluniau Iaith Gymraeg; ac, yn ail, y bwriad i rannu swyddogaethau hyrwyddo'r Bwrdd rhwng swyddfa'r Comisiynydd a'r Uned Iaith Gymraeg yn Llywodraeth Cymru.

Nid os cysail i'r cysyniad o safonau ym maes cynllunio iaith. Amser a ddengys a fydd y drefn newydd hon yn llwyddo. Er efallai dylid nodi nad yw hi'n ymddangos fod y drefn sy'n cyfuno cynlluniau iaith a chomisiynydd iaith yn gweithio'n dda mewn gwledydd eraill. Efallai fod yn rhaid cael trefn mwy caeth os ydym am weld gweithredu effeithiol gan y Comisiynydd Iaith yng Nghymru.

Soniais hefyd am rannu swyddogaethau hyrwyddo'r Bwrdd: nid o ran egwyddor yr wyf yn gwrthwynebu hynny, ond mae'n rhaid gofyn, ar sail ein profiad blaenorol yma yng Nghymru ac ar sail profiad gwledydd Ewrop, ai'r Llywodraeth Ganol yw'r cyfrwng gorau a mwyaf effeithiol i adeiladu ar waith y Bwrdd yn y maes datblygu cymunedol. Rhaid nodi hefyd, er iddo fod mewn bodolaeth ers 1998, nad yw Adran Weithredol Llywodraeth Cymru – y gwasanaeth sifil mewn geiriau eraill – wedi bod erioed yn baragon o ddwyieithrwydd. A dyma un o'r prif bethau sy'n poeni'r aelodau hynny o staff y Bwrdd a fydd yn trosglwyddo i'r Llywodraeth i weithio: a gân nhw wneud drwy gyfrwng y Gymraeg yr hyn oedd yn digwydd yn naturiol pan oedden nhw'n gweithio i'r Bwrdd?

Rhaid cydnabod yn syth rai cryfderau yn y mesur, er enghraifft, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn sicr yn meddu ar fwy o rym – a mwy o annibyniaeth, gobeithio – nag sy'n eiddo i Fwrdd yr Iaith. Hefyd mae sectorau newydd wedi'u cynnwys yn y Mesur, ond er gwaethaf hynny, mae yna rai sectorau lle bydd effaith y ddeddfwriaeth newydd yn wannach na'r ddeddfwriaeth gyfredol: cyrff y Goron fydd un o'r sectorau hynny. Yn ogystal, mae darlledu wedi'i eithrio'n llwyr o'r drefn safonau: rhywbeth a gymeradwywyd gan Ofcom, gyda llaw!

Mae'n ymddangos hefyd y bydd y newidiadau strwythurol yn dod i rym heb fawr o gynnydd mewn adnoddau: sydd eto'n argoeli'n wael o ran ymrwymiad y Llywodraeth.

Felly, mae'r newidiadau sydd ar droed ym maes hyrwyddo'r Gymraeg yn rhai sylweddol a sylfaenol. Rydyn ni'n symud o drylwyrredd a chreadigrwydd hyd braich y Bwrdd i sefyllfa lle mai'r prif chwaraewr fydd y Llywodraeth. Y Llywodraeth nawr fydd yn cymryd yr awenau a hefyd y cyfrifoldeb. Rhaid cofio gyda'r drefn newydd hon mai rheoleiddiwr fydd y Comisiynydd Iaith ac yn cadw golwg ar waith y Llywodraeth yn bennaf. Fydd gan y Comisiynydd ddim yr un cyllid na'r un cyfleodd a sydd gan y Bwrdd presennol i fod yn greadigol ac i ymateb yn sydyn. Felly y cwestiwn i'w ofyn yn y dyfodol fydd beth mae'r Gweinidog neu'r Gweinidogion yn ei wneud i hyrwyddo a diogelu sefyllfa'r Gymraeg. Nid y Comisiynydd! O hyn ymlaen y Llywodraeth, y Llywodraeth, y Llywodraeth fydd y gri. Dyna lle fydd y grym a'r cyfrifoldeb yn gorwedd.

Mae i hyn oll ei gryfderau a gwendidau. O ran cryfder mae'n gosod y cyfrifodeb yn uniongyrchol ar ysgwyddau gweinidogion ac fe ddylai hyn arwain at brif ffyrddio'r Gymraeg o fewn gwaith llywodraeth. Efallai'r prif wendid yw na ellir deddfu i sicrhau fod siaradwyr iaith leiafrifol i'w siarad. Rhaid i chi eu perswadio a'u cymell. Dyma fydd prif sialens y Llywodraeth sef dylanwadu yn uniongyrchol ar bobl ac yn enwedig pobl ifanc yn Aberaeron, Porthmadog, Bae Colwyn, Abertawe a'u cael i ddewis i siarad Cymraeg o'u gwirfodd.

Daw Bwrdd yr Iaith i ben ar ddiwedd Mawrth 2012. Bydd oddeutu traean o'r staff yn symud i Adran Datblygu Addysg a Sgiliau'r Llywodraeth gyda dwy ran o dair yn ymuno â'r Comisiynydd. Bydd cyfundrefn grantiau'r Bwrdd yn symud yn ei grynsyth i'r Llywodraeth ynghyd a'r gwaith Datblygu Cymunedol. Bydd cyrff megis y Mentrau Iaith, Yr Urdd, Yr Eisteddfod Genedlaethol bellach yn gwneud ceisiadau grant yn uniongyrchol i'r Llywodraeth.

O ran adnoddau, fy ngobaith i yw y daw rhywfaint o'r cynnydd angenrheidiol wrth i'r Llywodraeth asesu'n strategol swmp yr adnoddau a fydd eu hangen i weithredu'r strategaeth a gaiff ei chyhoeddi yn y flwyddyn newydd; dogfen, y mae'n dda gennyf ddweud, y bu gan y Bwrdd ran allweddol yn ei pharatoi, ar ei ffurf ddrafft beth bynnag.

Rwy'n hynod falch o'r hyn a gyflawnwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg dros y blynyddoedd; rwy'n hynod falch yn arbennig o gyfraniad y Bwrdd i ddatblygiad cynllunio ieithyddol cyfannol yma yng Nghymru. Rwy'n hynod falch yn ogystal fod y cyfraniad hwn yn wedi'i gydnabod droeon yn rhyngwladol, lle gwelir y Bwrdd fel arloeswr cynllunio ieithyddol. A dyna pam y mae gwledydd eraill yn Ewrop a thu hwnt wedi troi atom yn aml i efelychu ein prosiectau a'n dulliau o weithredu.

Ond uwchlaw popeth arall, rwy'n ymfalchïo yn ymrwymiad, arbenigrwydd, a chreadigrwydd staff y Bwrdd: dyma gyfle i ddatgan fy niolch iddyn nhw am eu cyfraniad arbennig a'u cefnogaeth ddi-ildio; diolch hefyd yn yr un modd i Gadeirydd presennol y Bwrdd, Meri Huws, a'r aelodau cyfredol. Credwch chi fi, os bydd rhywun yn llwyddo i wneud i'r trefniadau newydd weithio, yr aelodau hynny o staff y Bwrdd sy'n trosglwyddo i swyddfa'r Comisiynydd ac i Lywodraeth Cymru fydd y rheiny. A dyma, yng nghanol fy holl bryderon, yw conglfaen fy ngobaith ynghylch dyfodol cynllunio ieithyddol cyfannol yng Nghymru.

**Meirion Prys Jones**

**4 Awst 2011**